

# Gosod rheolaethau prisiau yn 2014

Nodyn briffio ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru

www.ofwat.gov.uk

## Darparu dŵr cynaliadwy

Mae pawb ohonom yn cytuno bod cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yn haeddu gwasanaeth rhagorol am bris teg. Dylid gwobrwyo cwmnïau sy'n arloesi er mwyn dod o hyd i ffyrdd newydd ac effeithlon o ddarparu hyn. Yn dilyn proses ymgynghori eang, rydym nawr wedi datblygu ein fframwaith methodoleg terfyn prisiau arfaethedig ar gyfer sut y byddwn yn pennu rheolaethau prisiau ar gyfer pob un o'r pum mlynedd o 2015 hyd 2020. Mae'r nodyn briffio hwn yn rhoi crynodeb o'r fframwaith a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch cwmni chi.

## Trosolwg

Dŵr yw un o'n hadnoddau mwyaf gwerthfawr. Tra bod y galw am gyflenwadau dŵr yn parhau i gynyddu, mae angen i ni wneud yn siŵr ei fod ar gael ar yr adeg ac yn lle y mae ein cwsmeriaid ei angen fwyaf. Ar yr un pryd, mae'r cwsmeriaid hynny yn haeddu talu pris teg a derbyn gwasanaeth o ansawdd uchel.

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei 'Ddatganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr', a oedd yn amlinellu ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector dŵr. Mae hyn yn dilyn 'Y Rhaglen Llywodraethu' yn 2010 ac yn adeiladu ar ddogfennau

Nodwedd allweddol o'n cynigion yw, am y tro cyntaf, gosod rheolaethau prisiau ar wahân ar gyfer:

- gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth adwerthol i gwsmeriaid preswyl;
- gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth adwerthol i gwsmeriaid dibreswyl (busnes);
- gwasanaethau dŵr cyfanwerthol; a
- gwasanaethau carthffosiaeth cyfanwerthol.

Drwy osod y rheolaethau prisiau penodol hyn, rydym eisiau rhoi cymhelliant i gwmnïau ganolbwyntio ar y canlyniadau hirdymor y mae eu cwsmeriaid yn eu gwerthfawrogi, yn hytrach nag allbynnau tymor byr a osodir gennym ni a rheoleiddwyr eraill. Mae ein fframwaith rheoli prisiau newydd yn rhoi rhagor o berchnogaeth i gwmnïau dros risgiau lle mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i reoli'r risgiau hynny.

Rydym eisiau gwobrwyo arloesedd a hybu effeithlonrwydd tra, ar yr un pryd, diogelu rheolaeth asedau a gwella cyfleoedd ar gyfer buddsoddi yn y tymor canolig i'r hirdymor. Rydym eisiau cynlluniau busnes o ansawdd uchel gan gwmnïau sy'n cynrychioli barn a dymuniadau cwsmeriaid. Bydd manteision – ariannol ac o ran enw da – ar gyfer cwmnïau sy'n gwneud hyn.

strategaeth eraill sy'n hybu datblygu cynaliadwy ar draws Cymru.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru yn cynnwys:

- cadw biliau ar lefelau fforddiadwy drwy roi dewis o opsiynau codi tâl, gan ddiogelu grwpiau agored i niwed a lleihau dyled ddrwg;

- rhoi cwsmeriaid wrth galon y sector dŵr yng Nghymru a lleihau'r baich rheoleiddiol; a
- darparu amgylchedd ansawdd dŵr gwell, yn ogystal â bodloni rhwymedigaethau amgylcheddol Ewropeaidd.

Mae ein fframwaith yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn a bydd yn cynorthwyo i ddarparu sector dŵr cynaliadwy drwy reoleiddio ar gyfer:

- **defnydd cynaliadwy ar ddŵr**
- **mwyr o atebolrwydd a chyfrifoldeb ar gyfer cwmnïau dŵr**; ac
- **effeithlonrwydd a thwf.**

## 1. Defnydd cynaliadwy ar ddŵr

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dŵr yn adnodd gwerthfawr. Ac mae ei reoli mewn modd cynaliadwy yn dod yn fwyfwy heriol gyda'r patrymau tywydd newidiol. Y flwyddyn [2012 oedd yr ail wlypaf](#) ers dechrau cadw cofnodion tywydd yn y DU. Mae effaith hyn yn ddifrodus – yn ystod 2012 dioddefodd ychydig dros 1,000 eiddo yng Nghymru gan lifogydd.

Er na ddioddefodd Cymru unrhyw sychder yn 2012 roedd nifer o gwmnïau yn ne ddwyrain Lloegr yn gosod cyfyngiadau ar faint o ddŵr y gallai eu cwsmeriaid ei ddefnyddio. Achoswyd y sychderau hyn gan lefelau dŵr daear eithriadol isel mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr oherwydd mai y [18 mis blaenorol oedd y rhai sychaf am dros 100 mlynedd](#). Mae hwn yn fater allweddol yng Nghymru lle mae [data UKCP09](#) yn dangos bygythiad cynyddol o lifogydd yn y gaeaf, a sychder yn yr haf.

Ar yr un pryd mae ein poblogaeth yn tyfu, mae lle mae pobl yn dewis byw yn effeithio ar y galw am ddŵr ac mae diwydiannau dwys o ran defnydd dŵr yn ymddangos – megis 'ffracio' (ar gyfer nwy siâl).

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod dŵr ar gael yn y manau ac ar yr adegau yr ydym ei angen fwyaf.

Yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd, mae dros hanner afonydd y DU yn dioddef o ordynnu dŵr tra bod digonedd o gyflenwad mewn eraill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, caiff llai na 5% o ddŵr yn y DU ei fasnachu rhwng cwmnïau ar draws ffiniau. Mae llawer o'r rhain wedi eu seilio ar gytundebau etifeddol sydd ddim o reidrwydd yn adlewyrchu gwir werth dŵr.

Mae'r heriau y mae pawb ohonom yn eu hwynebu yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn fyd-eang, sy'n golygu bod dŵr yn dod yn bwysicach ar yr agenda ledled y byd. Yn wir, mae rhai sylwebyddion ynni wedi awgrymu mai dŵr yw'r olew newydd nawr<sup>1</sup>.

### Beth ydym yn bwriadu ei wneud a pham

Rydym eisiau i chi fod yn arloesol a dod o hyd i atebion mwy cynaliadwy er mwyn bodloni'r galw, tra hefyd yn cynyddu gwytnwch y cyflenwad. Rydym am i chi allu gwneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ddeall gwir werth dŵr.

Rydym yn cynnig cyflwyno cymhelliannau newydd, wedi eu targedu er mwyn annog masnachu dŵr effeithlon – ar gyfer gwerthwyr a phrynwyr dŵr. Er mwyn eich annog chi i allforio dŵr, byddwn yn cynyddu cyfran yr elw ar hyd oes y gallwch ei gadw o allforio dŵr i hyd at 50%. Mae hyn yn fwy na'r swm yr ydych ar hyn o bryd yn ei gadw ac felly dylai wneud masnachu dŵr y fwy atyniadol.

Rydym yn rhoi cap o 50% ar hwn er mwyn diogelu cwsmeriaid rhag talu symiau gormodol tra ein bod

ni gyd yn dysgu a bod masnachu dŵr yn datblygu. Mae hyn mewn ymateb i sylwadau gan gwmnïau a oedd yn dweud ei bod hi'n well ganddynt hwy'r dull graddol hwn na'r dewis arall o ddadreoleiddio masnachu dŵr yn llwyr. Er mwyn gwneud yn siŵr bod dŵr yn cael ei fewnforio lle mae'n effeithlon, cynigwn adael i chi adennill canran sefydlog o'ch costau mewnforio.

Yn olaf, er mwyn lleihau lefelau o ordynnu dŵr ac i warchod yn erbyn y perygl y byddai ein cymhelliannau masnachu dŵr yn annog tynnu dŵr mwy anghynaliadwy, cynigwn gyflwyno'r mecanwaith cymhelliant tynnu dŵr (AIM). Bydd yr AIM yn berthnasol i safleoedd lle mae'r perygl o ddifrod amgylcheddol drwy ordynnu dŵr fwyaf. Mae wedi ei fwriadu i'ch gwobrwyo am dynnu llai o ddŵr o'r ardaloedd hyn nac yr ydych wedi ei wneud yn hanesyddol.

Mae'r ddau gymhelliant hwn wedi eu bwriadu i'ch gwobrwyo am ffynonellu dŵr o le nad yw'n gwneud difrod i'r amgylchedd a'ch annog i beidio ei gymryd o'r manau lle mae'n gwneud difrod.

## 2. Mwy o atebolrwydd a chyfrifoldeb ar gyfer cwmnïau dŵr

Bydd darparu sector dŵr ym mha un y caiff biliau eu cadw ar lefelau fforddiadwy, lle mae cwsmeriaid wrth galon gwneud penderfyniadau a lle mae ansawdd dŵr uwch yn gofyn am ragor o gyfrifoldeb – ar gyfer eich cynllunio hirdymor ac ar gyfer cyflawni'r cynlluniau hynny. Er mwyn cyflawni hyn, rydym y

<sup>1</sup> Cylchgrawn Forbes, 3 Mai 2012

cydnabod bod angen i chi gael y rhyddid i arloesi a dod o hyd i atebion mwy cynaliadwy.

### Beth ydym yn bwriadu ei wneud a pham

Rydym eisiau eich cymell i ganolbwyntio ar y canlyniadau hirdymor y mae eich cwsmeriaid yn eu gwerthfawrogi. Rydym yn deall bod casglu barn wahanol gan ystod eang o gwsmeriaid a chydbwyso ac adlewyrchu'r rhain yn eich cynllun busnes yn her. Felly er mwyn eich helpu, rydym wedi gofyn i chi sefydlu grŵp her cwsmeriaid (CCG) annibynnol.

Wrth i chi ddatblygu eich cynlluniau gallwch ddefnyddio adborth y CCG i sicrhau bod eich canlyniadau arfaethedig yn adlewyrchu blaenoriaethau eich cwsmeriaid. Lle gallwch ddangos yn glir bod cwsmeriaid yn barod i dalu am wasanaeth y tu hwnt i'ch lefelau ymrwymedig, gallwch gynnig cymhelliannau gwobrwyo a chosbi – cyn belled ag y gallwch ddangos nad yw hyn yn mynd y tu hwnt i barodrydd eich cwsmeriaid i dalu am y ddarpariaeth ychwanegol hon. Er mwyn gwneud y sector yn debyg i eraill, ni chaiff codiadau pris adwerthol ei fynegrifo'n awtomatig i'r RPI mwyach. Yn hytrach, byddwn yn gosod dwy o reolaethau adwerthol rhwymol yn 2014 – un ar gyfer cwsmeriaid preswyl ac un ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl – gan ddefnyddio dull newydd.

Ni all **cwsmeriaid preswyl** dewis eu cyflenwr, felly rydym yn cynnig gosod rheolaethau adwerthol sy'n cynnig lefel briodol o ddiogelwch er mwyn sicrhau nad ydynt yn

traws-gymorthdalur farchnad lle bo dewis. Er mwyn helpu i gadw biliau'r cwsmeriaid yn ddichonadwy byddwn yn defnyddio dull cost i wasanaethu cyfartalog er mwyn gosod rheolaethau adwerthol ar gyfer cartrefi. Disgwyliwn i bob cwmni ddarparu'n effeithlon ac ymdrechu i gyrraedd a gwella ar y gost gyfartalog i wasanaethu'r cwsmeriaid hyn. Unwaith eto, gan nad yw'r cwsmeriaid hyn yn gallu dewis eu hadwerthwr, byddwn yn parhau i reoleiddio er mwyn hybu gwelliannau i wasanaethau. Byddwn yn defnyddio'r mecanwaith cymhelliant gwasanaeth (SIM) a ddeallir yn dda i wneud hyn.

Ar gyfer **cwsmeriaid dibreswyl** byddwn yn gosod tariff diodyn – uchafswm pris am isafswm lefel gwasanaeth.

Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnig ymestyn dewis i gwsmeriaid busnes y tu hwnt i'r rheiny sy'n defnyddio rhagor na 50 miliwn litr o ddŵr y flwyddyn. Felly tra byddwn yn rheoleiddio'r gwasanaeth adwerthu i gwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru mewn ffordd sydd ar y cyfan yn debyg i Loegr, rydym yn cydnabod y bydd angen i ni ddefnyddio rheoleiddio wedi ei dargedu ac sy'n gymesur i ddiogelu'r rheiny yng Nghymru sydd heb ddewis.

Fel ag ar gyfer cwsmeriaid dŵr dibreswyl yn Lloegr, byddwn yn gosod tariff diodyn. Ond yn wahanol i Loegr, byddwn yn parhau i reoleiddio eich cwmni er mwyn hybu gwelliannau i wasanaethau yng Nghymru gan ddefnyddio math o'r SIM yr ydym

yn ei ddefnyddio yn y sector adwerthol preswyl.

### 3. Effeithlonrwydd a thwf

Mae'r sector yng Nghymru wedi buddsoddi tua £7.8 biliwn dros y 24 mlynedd diwethaf er mwyn creu gwelliannau i wasanaethau, seilwaith a'r amgylchedd. Bob blwyddyn bydd cwmnïau dŵr yng Nghymru yn gwario tua £350 miliwn ar wella gwasanaethau i gwsmeriaid a gwella a chynnal yr amgylchedd naturiol.

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y buddsoddiad hollbwysig hwn yn parhau ac yn cael ei ddefnyddio'n gywir oherwydd nid atebion y

At ddibenion y rheolaethau adwerthol, bydd gweithgareddau a gwasanaethau adwerthol yn cynnwys:

- bilio;
- trin taliadau;
- galwadau;
- rheoli dyledion;
- darllen mesuryddion;
- gwasanaethau effeithlonrwydd ochr y galw; ac
- atgyweirio gollyngiadau o ochr y cwsmer.

Bydd gweithgareddau adwerthol hefyd yn cynnwys:

- cynorthwyo i benderfynu pa fesuryddion ddylai gael eu gosod;
- penderfynu ar ddatgysylltu ac ailgysylltu; a
- chynnal gweithgareddau'r datblygwr sy'n ymwneud â'r cwsmer.

gorffennol o reidrwydd yw'r atebion iawn ar gyfer y dyfodol. Bydd heriau sy'n dod i'r amlwg – megis diwydiannau newydd a defnyddiau newydd ar gyfer dŵr, newid hinsawdd a thwf poblogaeth – yn newid y galw am ddŵr o fewn yr economi. Byddant hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r sector arloesi er mwyn darparu atebion mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr hirdymor.

### **Beth ydym yn bwriadu ei wneud a pham**

Bydd ein fframwaith yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'ch cwmni i ymateb wrth i heriau newydd ymddangos. Bydd ein rheolaethau prisiau adwerthol wedi eu targedu yn gweithio ochr yn ochr â math o SIM i'ch annog chi i ddarparu'r gwasanaethau y mae cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru yn eu disgwyl.

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod y bydd yn dal angen i'ch cwmni fuddsoddi symiau sylweddol er mwyn darparu ar gyfer cwsmeriaid yn y dyfodol. Bydd y dull yr ydym yn ei gynnig yn sicrhau y byddwch yn gallu casglu'r refeniw sydd ei angen arnoch i ariannu darpariaeth effeithlon eich gweithgareddau. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddiogelu'r buddsoddiad presennol ac annog buddsoddiad newydd.

Mae gweithgareddau cyfanwerthu yn cynrychioli 90% o fusnes cwmnïau dŵr. Byddwn yn parhau i osod rheolaethau pris cyfanwerthol gan ddefnyddio'r cysyniadau profedig o werth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) a'r cyswllt i'r RPI. Byddwn yn defnyddio'r fframwaith RPI+/-K, lle

mae K yn ffactor addasu blynyddol a osodwn yn ein penderfyniadau prisiau.

Bydd parhau i gysylltu rheolaethau cyfanwerthol i'r RPI yn rhoi amgylchedd gweithredu sefydlog ar gyfer eich cwmni a'r enillion rhagfynegadwy sydd eu hangen arnoch i ddenu buddsoddiad.

Fodd bynnag, er mwyn rhoi rhyddid a hyblygrwydd i chi ymateb yn well i'r heriau a wynebier gennym, byddwn yn newid rhai o'r manylion ynglŷn â sut yr ydym yn gosod y rheolaethau cyfanwerthol. Er enghraifft, rydym yn cynnig defnyddio cymysgedd o ddulliau cyfanswm refeniw a chynnyrch refeniw ar gyfer rheolaeth gyfanwerthol dŵr.

Bydd hyn yn caniatáu i chi addasu'r taliadau a godir gennych bob blwyddyn ar gyfer y gwahaniaethau rhwng eich refeniw gwirioneddol a'r refeniw a ganiatawyd o flynyddoedd blaenorol. Rydym hefyd yn cynnig y byddwch yn gallu adennill costau darparu dŵr ychwanegol a gwasanaethu cysylltiadau mesuryddion drwy addasu'r taliadau a godir gennych o flwyddyn i flwyddyn ac amrywio biliau i gwsmeriaid dros amser. Bydd hyn yn rhoi'r dewis i chi sut y byddwch yn rheoli'r proffil rhwng eich refeniwiau a biliau eich cwsmeriaid – gan ganiatáu i chi lyfnhau eich refeniwiau a'ch elw yn wyneb risgiau o ran galw. Rydym yn cynnig y bydd y rheolaeth gyfanwerthol carthffosiaeth yn defnyddio rheolaeth cyfanswm refeniw symlach oherwydd nid yw'n ymddangos bod digon o amrywiaeth mewn refeniw

carthffosiaeth i gyfiawnhau mecanwaith gwahanol. Ond rydym yn croesawu eich barn ar hyn.

Eto, er mwyn rhoi rhagor o berchnogaeth i chi ynglŷn â sut yr ydych yn rheoli eich busnes, cynigwn fabwysiadu dull cyfanswm gwariant (totex) i asesu eich costau cyfanwerthu a ganiateir. Byddwn yn defnyddio modelau econometrig ac an-econometrig er mwyn gosod costau gwaelodlin ar gyfer dewislenni totex. Byddwch yn gallu adennill canran sefydlog o gyfanswm eich gwariant ar sail talu wrth fynd (cymhareb PAYG) yn dilyn adolygiad o'ch cynllun busnes eich hun, gyda gweddill y gwariant yn cael ei ychwanegu i'r RCV.

Byddwn yn defnyddio cost gyfartalog cyfalaf wedi ei phwysoli (WACC) er mwyn penderfynu ar yr enillion ar gyfalaf, ar gyfer RCV 2015 ac ar gyfer ychwanegiadau yn 2015-20. Caiff hyn ei ddibrisio gan ddefnyddio cyfraddau dŵr ffo ar wahân a chyfrifir treth gan ddefnyddio cyfraddau dibrisiant lwfans cyfalaf. Mae'r dull hwn yn caniatáu i chi gynnig, o fewn coridorau diffiniedig ac yn amodol ar her gennym ni, eich cymhareb PAYG, cyfraddau dŵr ffo a chyfraddau dibrisiant lwfans cyfalaf.

I grynhoi, mae ein dull yn cynnal sefydlogrwydd drwy gysylltu rheolaethau cyfanwerthu i'r RPI, tra'n rhoi'r gallu i chi addasu'r taliadau a godir gennych i reoli eich refeniwiau a biliau eich cwsmeriaid yn well. Wedi ei gyfuno â dull totex tuag at asesiad cost cyfanwerthu, rydym yn rhoi mwy o hyblygrwydd i chi i nodi'r defnydd mwyaf effeithiol o arian

eich cwsmeriaid a rheoli eich refeniwiau a'ch costau a'ch llifau arian yn effeithiol.

Bydd y cymhelliannau yr ydym yn eu rhoi ar waith yn eich annog i wella effeithlonrwydd a gwasanaeth cwsmeriaid, tra'n rhoi hwb i arloesedd a chadw costau i lawr. Byddwch hefyd yn gallu cymryd rhagor o berchnogaeth ar y risgiau yr ydych yn y sefyllfa orau i'w rheoli. Bydd cwmnïau sy'n perfformio'n dda yn denu buddsoddiad, tra bydd y rheiny sydd ddim yn perfformio cystal yn cael eu cymell i wella.

## Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod sector dŵr cynaliadwy yn hanfodol yng Nghymru. Mae am

wneud yn siŵr bod cwsmeriaid yn cael eu rhoi wrth galon darpariaeth cwmnïau a bod y sector yn gweithio i wella'r amgylchedd naturiol. Mae hefyd wedi gosod nod y dylai perfformiad cwmnïau dŵr Cymru fod ymhlith y gorau yng Nghymru a Lloegr.

Bydd ein fframwaith yn rhoi'r llwyfan i gynorthwyo i gyflawni'r amcanion hyn. Bydd yn eich cynorthwyo i wneud y penderfyniadau cywir, seiliedig ar werth ar gyfer cwsmeriaid a'r amgylchedd a bydd yn rhoi cymhelliant i chi fod yn fwy arloesol ac effeithlon. Bydd masnachu dŵr effeithlon a chymhelliannau wedi eu targedu hefyd yn sicrhau defnydd mwy effeithlon ar ddŵr ac yn sicrhau cyflenwadau dros yr hirdymor.

Rydym yn meddwl bod y dulliau yr ydym yn eu cyflwyno yn cynorthwyo i sicrhau eich bod chi a'ch buddsoddwyr yn wynebu cydbwysedd priodol o risgiau a gwobrwyon, ac felly yn cynorthwyo i gynnal atyniad y sector o ran buddsoddiad. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni'r amcanion hyn.

## Rhagor o wybodaeth

'Involving customers in price setting – Ofwat's customer engagement policy statement', Ofwat, Awst 2011

'Future price limits – statement of principles', Ofwat, Mai 2012

'High emissions scenarios', UK Climate Projections, Mai 2012

'Consultation on retail price controls for the 2014 price review', Ofwat, Gorffennaf 2012

'Consultation on wholesale incentives for the 2014 price review', Ofwat, Awst 2012

'Review of the 2010-2012 drought and prospects for water resources in 2013', Asiantaeth yr Amgylchedd, Rhagfyr 2012

'Met Office: 2012 was UK's second wettest year on record', Newyddion y BBC, Ionawr 2013

**Adran ddi-weinidog o'r llywodraeth yw Ofwat (Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr). Yr ydym yn gyfrifol am sicrhau bod y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaeth effeithlon o ansawdd da i gwsmeriaid am bris teg.**

**Dŵr heddiw, dŵr yfory**



Ofwat  
Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500  
Ffacs: 0121 644 7699  
Gwefan: [www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk)  
E-bost: [mailbox@ofwat.gsi.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gsi.gov.uk)

Argraffwyd ar isafswm o 75% bapur gwastraff  
ôl-ddefnyddwyr heb inc  
Ionawr 2013

© Hawlfraint y Goron 2013